# City & Guilds Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Tasg F – Asesiad

*Sampl*

# Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Ar gyfer y dasg hon gofynnir i chi ystyried y rôl y mae arweinyddiaeth yn ei chwarae wrth gefnogi timau o fewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Y **meysydd testun** y mae'r dasg hon yn ymwneud â nhw yw:

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac effaith y rhain ar weithwyr a thimau
- Effaith rhinweddau arweinyddiaeth ar dimau
- Rôl dirprwyo effeithiol mewn amgylchedd tîm

Cyflwynir senario i chi yn y pecyn hwn y bydd angen i chi ei darllen a'i hystyried. Byddwch chi hefyd yn darllen nifer o adroddiadau gan unigolion mewn perthynas â'r senario.

Ar ôl i chi ddarllen y senario a'r adroddiadau, dylech chi ateb y cwestiynau sydd wedi'u darparu.

Bydd gennych chi hyd at **60** munud i **baratoi** eich ymatebion i'r cwestiynau, ac yna bydd gennych chi hyd at **30** munud i roi'r ymatebion hyn i'ch aseswr **ar lafar**.

# Cwestiynau

Mae angen i chi ymateb i bob un o'r cwestiynau canlynol, yn seiliedig ar y senario hon.

- Pa werthoedd craidd ac ymddygiadau arwain allai eich cefnogi i wella cymhelliant o fewn y tîm; ac ennill eu hymddiriedaeth a'u parch?
- Sut gallai eich gwybodaeth am ddamcaniaethau priodol (e.e. deallusrwydd emosiynol, dadansoddiad trafodol, y fframwaith synhwyrau a damcaniaeth rhyngddibyniaeth cymdeithasol) eich helpu chi i ddechrau datblygu perthnasoedd mwy cadarnhaol â'r tîm hwn ac o fewn iddo?
- Pam ei bod yn bwysig cael dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg ar gyfer y senario hon?
- Pa broses y byddech chi'n defnyddio er mwyn sicrhau bod y modd mae tasgau'n cael eu dirprwyo yn dryloyw a chlir o fewn y tîm?

# Senario

*"Mae lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol wedi cyflogi arweinydd tîm newydd yn ddiweddar. Gadawodd yr arweinydd tîm blaenorol y sefydliad yn gyflym iawn, ac ni chafwyd cyfnod trosglwyddo â'r arweinydd tîm newydd, a oedd yn benodiad allanol."*



“Rwy’n newydd yn y swydd, a chadeiriais ein cyfarfod tîm cyntaf heddiw. Trychineb llwyr! Prin fod unrhyw un wedi gwneud cyswllt llygaid â mi; wrth i mi feddwl am y peth, prin y gwnaeth unrhyw un gyswllt llygaid â’i gilydd chwaith. Roedd yn ddistawrwydd llwyr – doedd neb yn mân siarad, a dydw i ddim yn meddwl fy mod i wedi gweld gwên! Does gen i ddim syniad beth rwyf wedi cerdded i mewn iddo. Ceisiais fod o gymorth drwy ddarparu gwybodaeth, ond roedd pobl yn edrych ar y bwrdd neu’r wal. Pan awgrymais y byddai’n braf dod at ein gilydd fel tîm, roedd yr awyrgylch yn lletchwith iawn. Ni ddylwn fod wedi trafferthu. Mae’n amlwg i mi nad yw hwn yn dîm, a doedd dim cymhelliant nac ymgysylltiad yma.”



HYWEL– Aelod o'r staff

"Roeddwn i wir yn teimlo trueni dros ein rheolwr newydd. Nid oes ganddi syniad o'r baich sydd ar ysgwyddau ein tîm! Gadawodd ein rheolwr diwethaf ar delerau gwael. Roedd gan nifer o aelodau'r tîm berthynas anodd â hi ac effeithiodd hyn ar y perthnasoedd sydd gennym o fewn y tîm. Roedd llawer o wrthdaro yn y tîm (ac mae gwrthdaro o hyd). Roedd rhai ohonom o'r farn bod ein rheolwr diwethaf yn ffafrio rhai aelodau o'r tîm yn fwy nag eraill. Roedd yn sicr yn arfer rhoi'r tasgau gorau i'w ffefrynnau! Pe byddai unrhyw un hyd yn oed yn ystyried awgrymu gweithio mewn ffordd wahanol byddai'n cael ei ddisytyru ar unwaith. Roedd rhai ohonom yn ei hofni. Clywais rai pobl yn dweud eu bod yn teimlo bod ein rheolwr yn ymddwyn yn wahaniaethol ar adegau hyd yn oed. Nid oedd ganddi unrhyw barch tuag at yr iaith Gymraeg yn sicr!!!"